Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Harbwr Diogel

**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd yn adnoddau ac yn atyniadau gwych yn eu rhinwedd eu hunain. Er mwyn sicrhau bod yr harbyrau yn parhau i fod yn ddiogel, yn bleserus ac yn ddeniadol i bawb, rydym yn atgoffa defnyddwyr yr harbyrau o ychydig o bethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt a'u gwneud.**




**A fyddech cystal â gwneud y canlynol:**

1. Byddwch yn ystyriol o holl ddefnyddwyr eraill yr harbwr a'r cyhoedd a’u parchu bob amser.
2. Byddwch yn ystyriol o’r bywyd gwyllt lleol, ei barchu a'i werthfawrogi.
3. Gwnewch yn siŵr bod eich offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'w ddefnyddio. Mae hyn yn cynnwys rhaffau ac angorau arnofiol. Dylai'r rhain i gyd gael eu gwirio'n rheolaidd.
4. Deliwch â'ch holl wastraff mewn modd cyfreithlon a chyfrifol. Mae hyn yn cynnwys ac yn amrywio o offer pysgota sydd wedi darfod i olew gwastraff.
5. Storiwch yr holl offer yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau ac offer pysgota arall.
6. Peidiwch ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr wlyb neu ochr sych yr harbyrau. Mewn unrhyw argyfwng, gallai cynnal mynediad da fod yn hollbwysig. Parciwch gerbydau yn unol â'r trefniadau sydd ar waith a'r ddarpariaeth a wnaed.
7. Ymatebwch yn gadarnhaol i unrhyw gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codwch unrhyw faterion, pryderon neu awgrymiadau sydd gennych gyda staff yr Harbyrau cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion neu ddifrod y mae’n bosibl y dewch i wybod amdanynt yn yr harbyrau.
9. Cysylltwch â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.** Mae gwybodaeth a manylion pellach, gan gynnwys:

- Y Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau.
- Cyrsiau a Phellteroedd Morwrol,
- Amserlenni llanw lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Aberteifi, ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a’r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr a
- Diogelwch

ar gael drwy ymweld â: *https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/yr-arfordir-a-phorthladdoedd/*

Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r holl wybodaeth hon a sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â hi bob amser. Mae'r dogfennau'n destun diweddariadau ac felly dylid eu gwirio'n rheolaidd. **I gysylltu â ni, e-bostiwch clic@ceredigion.gov.uk neu ffoniwch 01545 570881.**